

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWIYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD IAU, 18 EBRILL 2019, AM 14:00

Presennol

Y Cyngorydd A Williams – Cadeirydd

CA Green
PA Davies

MJ Kearn
TH Beedle

RM Granville
T Giffard

LM Walters

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JE Lewis, AJ Williams a/ac P Davies

Swyddogion:

Mark Jones	Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru
Sarah-Jane Byrne	Rheolwr Awdurdod Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru
Mary Williams	Rheolwr Grŵp - Phrif Gyfrifydd
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Michael Pitman	Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd
Mark Thomas	Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol
Samantha Clements	Swyddfa Archwilio Cymru
Joan Davies	Uwch Archwilydd Grwp

118. DATGANIADAU BUDDIANT

Dim.

119. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 17/01/2019 fel cofnod gwir a chywir cyhyd ag y byddent yn adlewyrchu'r ffaith bod yr Aelod Lleyg, Josephine Williams, wedi bod yn bresennol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Gofnod 110 gan ofyn pa bryd y câi adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor, i geisio diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio er mwyn i'r Pwyllgor symud ymlaen, ystyried diweddariadau yn y dyfodol yn crynhoi'r digwyddiadau a'r achosion a fu bron â digwydd ac a gofnodwyd a'r camau i'w cymryd i atal y rhain/eraill rhag ailddigwydd.

Gofynnodd hefyd a allai'r Aelodau gael diweddariad ynghylch Cofnod 113, sef a oedd y Strategaeth Atal Twyll a Llwgrwobrwyd a'r Polisi Atal Gwyngalchu Arian wedi'u cyflwyno eto i gyfarfod o'r Cabinet i gael eu hystyried. Cadarnhaodd y Prif Gyfrifydd eu bod wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror 2019.

Cyflwynodd y Cadeirydd hefyd y Pennaeth Archwilio Mewnol newydd i'r Aelodau, a dywedodd y Pennaeth wrth y Pwyllgor

am ei gefndir o ran ei brofiad gwaith blaenorol, gan gynnwys ei gyflogaeth ym meysydd proffesiynol Cyllid ac Archwilio.

120. DIWEDDARIAD AR RAGLEN PERFFORMIAD GWAITH SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU (WAO)

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Interim adroddiad, a roddodd ddiweddariad ar Raglen Archwilio Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ar gyfer 2018-19.

Esboniodd fod y rhaglen waith hon yn cael ei gwneud i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Roedd y rhaglen hefyd yn bwydo astudiaeth at wella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelid gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) grynodedb o Atodiad A i'r adroddiad, a oedd yn amlinellu'r Gwaith Archwilio Perfformiad ar gyfer 2018-19 ac a oedd ar y gweill ar gyfer 2019-20. Eglurodd rychwant y gwaith a oedd wedi'i wneud, a nododd y byddai'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AIR) ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol hefyd yn cynnwys manylion ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol y flwyddyn flaenorol.

Dywedodd wrth yr Aelodau fod yr Asesiad Sicrwydd a Risg wedi'i gwblhau ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio ac y byddai hyn hefyd yn ffurfio rhan o'r Cynllun Archwilio.

Dywedodd wrth yr Aelodau hefyd fod briff y prosiect ar gyfer lechyd yr Amgylchedd ar y gweill ar y pryd.

Esboniodd fod gwaith ym maes Diogelu Corfforaethol yn parhau hefyd. Ychwanegodd fod hyn yn dal yn y cyfnod cynllunio ar y pryd, am fod arolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar gan Estyn gan effeithio ar y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Teuluol, a oedd yn dal i ddisgwyl argymhellion Estyn. Roedd angen y canlyniadau hyn cyn y gallai'r gwaith i archwilio'r maes gwasanaeth hwn gael ei gwblhau'n llawn.

Ychwanegodd fod yr eitemau ynglŷn â Gwasanaethau i Gymunedau Gwledig a Defnyddio Data yn Effeithiol bellach wedi eu cwblhau.

Gofynnodd un o'r Aelodau i gynrychiolydd y WAO beth yn benodol oedd yn cael ei ystyried mewn perthynas â'r eitem yn union uchod.

Dywedodd cynrychiolydd y WAO ei bod yn teimlo bod hyn yn ymwneud â mynediad at wasanaethau ac a oedd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth hon, ond fe fyddai'n edrych ar hyn ymhellach ac yn rhoi adborth i'r Pwyllgor yn ddiweddarach.

Gofynnodd yr Aelod hefyd beth oedd yn cael sylw yn yr astudiaeth ac a oedd unrhyw arferion da y gallai'r Cyngor eu defnyddio, yn arbennig o ran darparu gwasanaethau bysiau mewn cymunedau gwledig, ac a allai'r WAO roi trosolwg ar hyn hefyd.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Archwilio'n nodi'r diweddariad ar raglen waith perfformiad y WAO ar gyfer Ebrill 2019.

121. CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL YR ARCHWILWYR ALLANOL 2019

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Interim yr adroddiad ar Gynllun Archwilio Blynyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2019 ynghyd â rhestr o Lofnodwyr Grantiau awdurdodedig ar

ran y Cyngor. Cyflwynodd cynrychiolydd y WAO yr agweddau yn yr adroddiad yn ymwneud â pherfformiad, a oedd yn gofyn i'r Aelodau adolygu Cynllun Archwilio Blynnyddol yr Archwilwyr Allanol ar gyfer 2019.

Eglurodd i'r Aelodau y Rhaglen Archwilio Perfformiad a nodwyd yn arddangosyn 3 yn yr adroddiad, a oedd yn amlinellu'r pynciau gwaith ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi disgrifiad byr o bob un o'r rhain er budd yr Aelodau.

Eglurodd cynrychiolydd y WAO hefyd fod rhychwant y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol wrthi'n cael ei bennu ar y pryd a bod yna staff yn y WAO yn gweithio ar hynny y pryd hwnnw. Ychwanegwyd bod hwn yn brosiect a oedd yn gyffredin i bob awdurdod lleol, ac a fyddai'n fodd i asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni'r heriau presennol a'r heriau y rhagwelid y byddai'r Cyngor yn eu hwynebu. Roedd hyn yn golygu archwilio'r hyn yr oedd y 22 o awdurdodau lleol eraill yn ei wneud yn hynny o beth, i fesur pa heriau yr oedden nhw wedi'u hwynebu ac wedi'u goresgyn, er mwyn i Gyngor Pen-y-bont ddysgu o'r rheiny.

Eglurodd hefyd eu bod yn gobeithio pennu rhychwant y gwaith ar y bartneriaeth ieuchyd newydd rhwng y Cyngor ac Awdurdod Iechyd Cwm Taf, a oedd yn mynd rhagddo'n dda.

Eglurodd cynrychiolydd y WAO fod y Strategaeth Gweithlu'n brosiect a oedd wedi'i sefydlu er mwyn adolygu ymagwedd y Cyngor at gynllunio'r gweithlu, a sut roedd gofynion gwaith yn cael eu rheoli, yn arbennig oherwydd y pwysau parhaus yn sgil toriadau mewn cyllidebau etc, yr oedd yr awdurdodau lleol yn eu hwynebu.

Soniodd y Rheolwr Archwilio Ariannol fod y Cynllun Archwilio'n nodi cyfrifoldeb yr Archwilwyr a'r Cyngor, o gofio'u priod rolau gwahanol

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau:-

- (1) Wedi adolygu ac wedi ystyried cynnwys Cynllun Archwilio Blynnyddol yr Archwilwyr ar gyfer 2019 yn Atodiad A i'r adroddiad.
- (2) Yn nodi'r rhestr o lofnodwyr grantiau awdurdodedig yn Atodiad B (i'r adroddiad).

122. ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI 2017-18

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Ariannol adroddiad gan Archwilydd Allanol y Cyngor ar y gwaith grant a wnaed ar gyfer 2017-18.

Crynhodd yr holl hawliadau a ffurflenni a gawsai eu hardystio, fel y'u ceid yn Atodiad A i'r adroddiad, ynghyd â'r ffioedd ardystio a chanlyniad Adolygiad yr Archwilwyr Allanol. Roedd y canlyniadau ardystio fel a ganlyn:-

- Bod 100% o'r hawliadau grant wedi'u cyflwyno yn unol â dyddiad cau y corff a oedd yn dyfarnu'r grantiau (a oedd yn gyson â 2016-17);
- Bod naw o dystysgrifau heb eu hamodi, bod dwy wedi'i hamodi, un o ganlyniad i nifer fach o wallau wrth gyfrifo budd-dal tai a arweiniodd at addasiad o £547, a'r llall oherwydd eitem gwariant anghymwys a oedd yn werth £6,298;
- Bod addasiadau wedi'u gwneud i bedwar o'r 11 o hawliadau, a arweiniodd at ostyngiad cyffredinol yn y grant i'r Cyngor o £6,573. Roedd hynny'n cymharu â chwech y bu'n ofynnol eu haddasu yn y flwyddyn flaenorol.

Esboniodd fod Archwilwyr Allanol y Cyngor wedi gwneud un argymhelliad, a oedd wedi'i restru yn Arddangosyn 3 yn yr adroddiad. Esboniodd hefyd fod rhywfaint o bwyslais

wedi'i roi ar hyfforddiant, i'r staff hynny a oedd yn ymwneud â chefnogi'r maes gwaith hwn.

Eglurodd hefyd fod cyfanswm cost yr archwiliadau ar yr hawliadau a'r ffurflenni grant, sef £51,873, yn is na'r amcangyfrif o ffioedd o £58,500 ar gyfer hyn a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018. Roedd yna fanylion ar ddadansoddiad o'r holl ffioedd perthnasol a oedd yn gymwys (fesul grant a ffurflen) yn Arddangosyn 4 yn yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Interim hefyd wrth yr Aelodau y bydden nhw'n cael diweddariad ar hyn y tu allan i'r cyfarfod neu drwy adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Yn olaf, awgrymodd y Cadeirydd y dylai adroddiad pellach gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor neu i gyfarfod yn y dyfodol, yn amlinellu crynodeb o'r gwelliannau a wnaed yn yr adran Budd-dal Tai fel rhan o Gynllun Gweithredu a luniwyd yn dilyn archwiliad o'r maes gwasanaeth hwn, gan gynnwys manylion unrhyw Gynllun Hyfforddi a Datblygu i'r staff.

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y gwaith grant a wnaed ar gyfer 2017-18 ac a atodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.

123. ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD ALLDRO TERFYNOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y perfformiad mewnol gwirioneddol o'i gymharu â Chynllun Archwilio blwyddyn ariannol 2018-19, ac yn rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio.

Rhoddodd gefndir y Cynllun Archwilio Mewnol gan esbonio bod y cynllun wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i gael ei ystyried a'i gymeradwyo ar 26 Ebrill 2018. Roedd hyn yn amlinellu'r aseiniadau a oedd i'w cyflawni a'r priod flaenoriaethau. Rhoddodd ddiweddariad i'r Aelodau hefyd ar y sefyllfa/cynnig presennol yn unol â'r manylion ym mharagraff 4 o'r adroddiad eglurhaol.

Roedd yr alldro gwirioneddol o'i gymharu â'r Cynllun Seiliedig ar Risg ar gyfer 2018/19 wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad.

Esboniodd fod Atodiad B i'r adroddiad yn dangos y gwaith a oedd wedi'i wneud ers Ebrill 2018, gan gynnwys yr wybodaeth am ddangosyddion perfformiad amrywiol ynglŷn ag elfennau gwahanol o'r gwaith hwn. Eglurodd hefyd bob adran o 1 i 13 yn Atodiad B i'r Aelodau. Eglurodd hefyd fod barn y Pennaeth Archwilio yn cynnig "Sicrwydd Rhesymol" ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor.

Holodd un o'r Aelodau am brosiect ARBED (yn Atodiad B) a oedd yn cadarnhau bod canfyddiadau'r archwilwyr ar hyn bron wedi'u cwblhau ym mis Ionawr 2019. Serch hynny, gofynnodd a oedd modd cael rhywfaint o eglurhad pam roedd yr adroddiad yn dweud bod y gwaith hwn yn parhau ac am gael ei gario ymlaen i 2019/20, o gofio bod hyn yn wybodaeth anghyson.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Interim fod yr oedi o ran cwblhau'r gwaith hwn wedi codi am fod y Cyn-bennaeth Archwilio Mewnol wedi ymadael â'r awdurdod drwy ymddeol ac oherwydd bod hynny wedi cydreddeg â dyfodiad Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol a oedd i bob pwrpas wedi ymgymryd â'r swydd honno. Eglurodd ymhellach fod gwaith y prosiect hwn nawr yn ei gyfnod terfynol ac yn cael ei gwblhau. Cydnabu'r

Pennaeth Cyllid Interim y gallai'r geiriad yn yr adroddiad a oedd yn egluro hyn fod wedi bod yn gliriach ac felly roedd yn bosibl ei fod yn gamarweiniol.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud ond bod angen mwy o waith ac y byddai'r Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd cyn gynted â phosibl.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a allai rhagor o wybodaeth gael ei darparu ar yr archwiliad blaenorol o Daliadau Uniongyrchol, gan gynnwys unrhyw werth ariannol mewn perthynas ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a roddwyd ar waith i wella'r maes gwasanaeth hwn a chadarnhad bod unrhyw gamau a argymhellwyd gan yr Aelodau yn cael eu dilyn a'u rhoi ar waith.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol y gallai rhagor o wybodaeth gael ei darparu ar yr uchod, ar ôl i SWAP wneud eu gwaith archwilio dilynol arfaethedig

PENDERFYNWYD: Bod Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi rhoi ystyriaeth briodol i Adroddiad Alldro Terfynol yr Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngorau mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

124. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO SEILIEDIG AR RISG EBRILL 2019 I FAWRTH 2020

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol adroddiad ar Strategaeth Archwilio Mewnol y Cyngor a'i Gynllun Archwilio Seiliedig ar Risg ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

Rhoddodd grynodedeb i'r Aelodau o Strategaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol a'i Gynllun Archwilio Seiliedig ar Risg blynyddol drafft a oedd yn ymdrin â'r canlynol:-

- Methodoleg;
- Y Broses Asesu Risg;
- Y Cynllun Archwilio Mewnol;
- Y Gofynion o ran Adnoddau

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol fod y gofynion o ran adnoddau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan o'r broses cynllunio archwiliadau ac yn cael eu trafod gyda Bwrdd y Cydwasaeth Archwilio Mewnol (IASSB). Roedd effaith y pwysau ariannol a'r gofynion i greu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion caled wedi gweld adnoddau'r archwilwyr mewnol yn gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. O ganlyniad ac ar ddechrau 2019/20 roedd y Gwasanaeth Archwilio wedi'i ymestyn er mwyn sicrhau mwy o wytnwch at y dyfodol a gan hynny, fe fyddai bellach yn darparu'r swyddogaeth archwilio mewnol i bedwar o gynghorau; sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg. Gan mai Gwasanaeth Rhanbarthol a oedd newydd ei ddatblygu oedd hwn, nid oedd strwythur cyffredinol y gwasanaeth wedi'i bennu'n derfynol eto. O ganlyniad, roedd y cynllun wedi'i seilio ar uchafswm nifer y diwrnodau cynhyrchiol a oedd ar gael i'w rhoi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn gyfan a hynny ar sail cyflenwad llawn o staff.

Cydnabyddid y dylem gofio'r ffaith y byddai 2019/20 yn flwyddyn bontio i'r gwasanaeth ac felly y byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran darparu gwasanaethau, ond fe fyddai trefniadau'n cael eu gwneud i fonitro perfformiad yn agos, i roi gwybodaeth i'r

Pwyllgor Archwilio yn gyson a phe bai'r angen yn codi, byddai cymorth yn cael ei geisio i lenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth.

Yn Atodiad A i'r adroddiad, ceid dogfen ddrafft y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20. Roedd honno'n dangos sut y câi'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddatblygu a'i gyflwyno yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgorau a sut roedd hynny'n cysylltu ag amcanion a blaenoriaethau'r awdurdodau. Ychwanegodd y câi'r Strategaeth ei hadolygu a'i diweddarau bob blwyddyn mewn ymgynghoriad ag Aelodau a Swyddogion allweddol (megis y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol).

Roedd y Cynllun Blynnyddol Seiliedig ar Risg ar gyfer 2019/20 wedi'i lunio i sicrhau y cydymffurfid â'r safonau a geid yn y PSIAS. Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio gael eu hysbysu'n llawn, ac i sicrhau y cydymffurfid â'r Safonau Archwilio Mewnol roedd y cynllun manwl drafft ar gael yn Atodiad B (i'r adroddiad).

Wedyn amlinellodd i'r Aelodau Dabl 1 yn Atodiad A a oedd yn dangos Argaeledd a Defnydd Adnoddau Cynhyrchiol Ebrill 2019 - Mawrth 2020 – cynigion drafft.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried ac wedi cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Cynllun Archwilio Seiliedig ar Risg blynnyddol drafft ar gyfer 2019/20 (yn Atodiad B).

125. SIARTER Y CYDWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RANBARTHOL 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Cleientau Archwilio adroddiad ar Siarter Cydwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ar gyfer 2019/20, yn Atodiad A i'r adroddiad.

Esboniodd fod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) wedi dod i rym ers 1 Ebrill 2013 gan ddisodli Cod Ymarfer Archwilwyr Mewnol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Un o'r rolau allweddol sy'n dangos goruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio oedd cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo siarter cyntaf y Cydwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2013/14 yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2013.

Roedd y PSIAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio adolygu'r Siarter o bryd i'w gilydd, a chyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio oedd cymeradwyo'r Siarter yn y pen draw.

Esboniodd fod y Siarter, yn Atodiad A i'r adroddiad, yn adlewyrchu'r ffaith bod y cynnwys i raddau helaeth yn parhau yr un fath â'r testun blaenorol. Serch hynny, roedd bellach yn ymwneud â phedwar awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd, sef Bro Morgannwg, Pen-y-bont, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg beth oedd barn y swyddogion ar arwyddocâd y penderfyniad i gydweithio ar raddfa ehangach, ac a fyddai hynny'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar y gwasanaeth a gâi ei ddarparu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Eglurodd y Rheolwr Cleientau Archwilio y byddai'r uchod yn cael ei gymryd i ystyriaeth ac y byddai pob un o'r pedwar cyngor yn arddel ymagwedd safonol yn gyffredinol o ran eu priod prosesau archwilio. Eglurodd hefyd y byddai gwasanaeth ehangach yn helpu o ran rhagor o arbenigeddau yn ogystal â darparu mwy o ddyfnder gyda staffio, a fyddai yn ei dro yn caniatáu ar gyfer mwy o gapasiti gwaith yn gyffredinol. Felly, fe ddylai ansawdd a chyflymder archwiliadau wella.

Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd unrhyw beth ar gael megis staff asiantaeth, o ran asesiadau risg, costau ac amseru.

Gofynnodd y Cadeirydd i ystyriaeth gael ei rhoi i edrych ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn yr awdurdodau cyfagos, yn enwedig y rhai a oedd yn ffurfio'r Cydwasanaeth Archwilio Mewnol, gyda golwg ar gysoni'r rhain. Ychwanegodd hefyd y dylid ystyried trefnu cyfarfodydd i gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio'r awdurdodau cyfagos fel rhan o fenter rwydweithio, er mwyn rhannu ffyrdd effeithiol o weithio/arferion da.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried ac wedi cymeradwyo Siarter y Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2019/20 fel y'i hatodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.

126. **BLAENRAGLEN WAITH 2018/19 WEDI'I DIWEDDARU A RHAGLEN ARFAETHEDIG 2019/20**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar flaenraglen waith 2018/19 a gofynnodd am gymeradwyaeth i raglen arfaethedig 2019/20.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad A yn yr adroddiad, a oedd yn amlinellu amserlen bresennol y cyfarfodydd a'r flaenraglen waith hyd yn hyn. Eglurodd fod yr eitem ar dwyll a drefnwyd ar gyfer 18 Ebrill 2019 wedi'i gohirio tan 13 Mehefin 2019.

Mewn ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau ar eitem y Diweddariad am Dwyll a oedd wedi'i gohirio ers ychydig gyfarfodydd blaenorol yr oedd wedi'i threfnu ar eu cyfer, eglurodd y Pennaeth Cyllid Interim a'r Swyddog Adran 151 fod dwy eitem ar wahân i gael eu hystyried yn y Pwyllgor ar ddyddiad(au) yn y dyfodol mewn perthynas â Thwyll: diweddariad ar yr archwiliad blaenorol a gynhaliwyd mewn perthynas â Chardiau Prynu oedd y naill, a'r Fenter Twyll Genedlaethol oedd y llall.

Gofynnodd un o'r Aelodau am eglurhad ar symud dyddiadau'r Pwyllgor Archwilio ymlaen, gan ei bod hi o dan yr argraff eu bod nhw i fod i gael eu cynnal ar ddyddiadau gwahanol i'r hyn a amlinellid yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

Cadarnhaodd yr Uwch-swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau fod dyddiadau rhai cyfarfodydd wedi'u newid bellach o'r rhai a oedd wedi'u gosod dros dro o'r blaen, er mwyn darparu ar gyfer busnes penodol allweddol yr oedd angen i'r Aelodau ei ystyried

PENDERFYNWYD: Bod yr Aelodau wedi ystyried ac wedi nodi Blaenraglen Waith 2018/19.

127. **EITEMAU BRYD**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:27